**CABINET**
**DECISION RECORDING LOG**

**DECISION DETERMINED ON: Dydd Mercher, 4 Gorffennaf 2018**

**DECSION WILL COME INTO EFFECT ON: Manually Type Call in Date**

*Decisions made by full cabinet and individual cabinet members are subject to "Call-in" by the appropriate Select Committee. Should a decision be subject to call-in it will not take effect as stated above and will be presented again at a later date.*

**CABINET MEMBERS PRESENT:**

County Councillors R.J.W. Greenland, R.John, S.B. Jones, P. Jones, S. Jones, P. Jordan and P. Murphy

**OTHER ELECTED MEMBERS PRESENT:**

County Councillors

**OFFICERS PRESENT**

Paul Matthews, Will Mclean, Robert Tranter, Nicola Perry, Hannah Jones, Gareth King, Mike Moran and Ian Saunders

| Item Number | Title | Purpose, Consultation & Author | Declaration of Interests | Decision |
|---|---|---|---|---|
| **3a** | CYLLID ADRAN 106 Y KNOLL, Y FENNI | As set out in the report | | RESOLVED:<br>Bod cyllideb gyfalaf o £26,082 yn cael ei chreu yn 2018/19 i ariannu'r prosiectau canlynol yn rhannol a bod hyn yn cael ei ariannu o gyfraniad cyfatebol o'r balansau Adran 106 a ddelir gan y Cyngor Sir mewn perthynas â'r datblygiad yn The Knoll, Y Fenni (Cod Cyllid N583).<br><br>Bod grantiau yn y symiau a ddangosir yn cael eu dyrannu i'r prosiectau canlynol:<br>1. Cyfeillion Parc Bailey £3,300<br>2. Cyfeillion Linda Vista Gardens £1,590<br>3. Ymddiriedolaeth Gymunedol y Fenni £2,140<br>4. Côr Synergy £3,300<br>5. Astudiaeth ddichonoldeb Beicio Oddi ar y Ffordd £5,000<br>6. Gwelliannau Castle Meadows a Linda Vista (balans) £10,752<br><br>Cyfanswm am 26,082<br>Total 26,082 |
| **Additional Information:** | | | | |
| **3b** | DATGAN BOD ODDEUTU 36 ERW O DIR AMAETHYDDOL YN WEDDILL I'R GOFYNION A CHEISIO CANIATÂD I'W WAREDU | As set out in the report | | RESOLVED:<br>Bod yr ased o'r enw Tryleg 2/3/8, sy'n cwmpasu tua 36 erw o dir rhwng Llanisien a Thryleg, yn cael ei ddatgan yn ddiangen ar ôl i'r tir gael ei drosglwyddo'n ôl i'r Cyngor yn gynharach eleni.<br><br>Rhoi caniatâd i'r tir gael ei waredu ar y farchnad agored gan Dîm Ystadau'r Cyngor.<br><br>Rhoi'r cydsyniad i'r Rheolwr Ystadau, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Adnoddau, i gytuno ar y dull gwaredu ac unrhyw faterion cysylltiedig eraill mewn perthynas â'r gwarediad hwnnw. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Bod y cyllidebau a nodir isod yn cael eu neilltuo i ariannu'r costau angenrheidiol o waredu'r tir. |
| **Additional Information:** | | | | |
| **3c** | AILSTRWYTHURO ATYNIADAU | As set out in the report | | RESOLVED:<br>Cymeradwyo'r newidiadau i'r strwythur staffio fel y'u hamlinellir yng nghorff yr adroddiad i'r hyn a welir yn Atodiad 1.<br><br>Cymeradwyo y bydd unrhyw gostau dileu swyddi a phensiwn cynnar yn cael eu talu<br>Cyllideb Diswyddo Corfforaethol. |
| **Additional Information:** | | | | |
| **3d** | GADAWYR GOFAL - EITHRIAD I'R DRETH GYNGOR | As set out in the report | | RESOLVED:<br>Dyfarnu gostyngiad o 100% yn y dreth gyngor yn ôl disgresiwn i bawb sy'n gadael gofal rhwng 18 a 25 oed sy'n byw yn y sir.<br><br>Mabwysiadu'r cynllun cymorth arfaethedig a nodwyd yn 4.4.2. |
| **Additional Information:** | | | | |
| **3e** | POLISI A GWEITHDREFN ADENNILL DYLEDION PRYDAU YSGOL YN Y SECTOR CYNRADD | As set out in the report | | RESOLVED:<br>Bod y ddyled sy'n gysylltiedig â darparu prydau ysgol i blant y sector cynradd a chlybiau cyn-ysgol yn cael ei rheoli gan ddefnyddio'r polisi a'r weithdrefn ganlynol:<br><br>1. Na chymerir unrhyw gamau i adennill dyledion nes bod gwerth y ddyled yn fwy na £10.<br>2. Bod y sawl sy'n gyfrifol am dalu am y gwasanaeth (y rhiant neu warcheidwad mwy na thebyg) yn derbyn cyngor ysgrifenedig o'r ysgol ynglŷn â'r ddyled ar 3 achlysur dros gyfnod o 3 wythnos.<br>3. Os bydd y ddyled yn parhau heb ei thalu, bod y person sy'n gyfrifol am dalu am y gwasanaeth yn cael ei wahodd i gyfarfod gyda'r ysgol i drafod pam mae'r ddyled yn bodoli.<br>4. Ysgolion i ddarparu tystiolaeth o erlid dyledion a chymryd pob cam i gasglu'r ddyled, gan gynnwys llythyron at rieni a chyfarfodydd lles.<br>5. Rhaid i unrhyw gynlluniau talu gael eu cytuno gyda'r awdurdod lleol a gall unrhyw wyriad o'r cynllun talu hwn arwain at dynnu'r gwasanaeth yn ôl os cytunir arno gyda'r Prif Swyddog Addysg a'r Pennaeth Gweithrediadau.<br>6. Ar ôl i'r ddyled gael ei uwchgyfeirio i'r awdurdod lleol, mae'n rhaid i'r ysgol ddarparu tystiolaeth o geisio adennill y ddyled honno. Os yw'r dystiolaeth yn gadarn ac nad yw'r awdurdod lleol wedyn yn gallu adennill y ddyled, bydd yr awdurdod lleol yn talu'r gost. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | 7. Os na all ysgolion ddarparu'r dystiolaeth honno, neu os nad yw'n gadarn, bydd unrhyw ddileu dilynol yn gost i gyllideb yr ysgol.<br>8. Cyflwynir adolygiad o'r weithdrefn a lefel y ddyled i'r Cabinet ymhen chwe mis.<br><br>Bod yr holl ddyledion eraill yn cael eu cyfrif drwy gyllidebau ysgolion unigol (e.e. teithiau ysgol) |
| **Additional Information:** | | | | |
| **3f** | PAPUR YMGYNGHORI AR GYFER ADOLYGIAD O GYNHWYSIANT | As set out in the report | | RESOLVED:<br>Cymeradwyo'r amserlen ddiwygiedig sy'n gysylltiedig â'r broses ymgynghori statudol hon, sy'n cynnig bod y Cabinet yn gwneud ei benderfyniad terfynol ar 5ed Rhagfyr 2018 yn hytrach na'r 7fed Tachwedd 2018 fel y'i cynigiwyd yn wreiddiol. |
| **Additional Information:** | | | | |
| **3g** | CYCHWYN DA I BAWB - STRATEGAETH LEIHAU SIR FYNWY AR GYFER DRAFFT NEET (HEB FOD MEWN ADDYSG, CYFLOGAETH NA HYFFORDDIANT) | As set out in the report | | RESOLVED:<br>Bod y Cabinet yn cymeradwyo'r fersiwn ddrafft terfynol o Strategaeth Leihau Sir Fynwy drafft ar gyfer Pobl Ifanc NEET (Heb Fod Mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant). |
| **Additional Information:** | | | | |
| **3h** | GWEITHGOR CRONFA'R EGLWYS YNG NGHYMRU | As set out in the report | | RESOLVED:<br>Bod y grantiau canlynol yn cael eu dyfarnu yn unol â'r rhestr ceisiadau. |
| **Additional Information:** | | | | |